European Union

en | cy

Press release | 15.02.2019

Angen cynllun gweithredu i gau bwlch ariannu gadael yr UE

Datganiad gan ASE CRhE Jill Evans (Plaid Cymru)

Mewn llythyr at Brif weinidog y Deyrnas Gyfunol, mae'r Aelod o Senedd Ewrop dros Gymru, **Jill Evans**, wedi ymuno â galwadau gan grŵp trawsbleidiol o Aelodau Seneddol Ewropeaidd yn galw ar Theresa May i roi cynnig ar waith fydd yn cymryd lle'r arian a geir ar hyn o bryd gan yr UE pan fydd yn dod i ben .

Ar hyn o bryd, mae Cymru yn elwa gan biliynau o bunnoedd o'r Undeb Ewropeaidd. Bydd y cylch ariannu presennol yn rhedeg o 2014-2020, ac erbyn hynny bydd disgwyl bod Cymru wedi derbyn £2.06 biliwn mewn nawdd gan yr UE.

Canfu ymchwil gan Gynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol (CPMR) y bydd Cymru yn colli tua £2.5 biliwn yn ystod y cylch nesaf fyddai'n rhedeg o 2021-2027.

Yn y llythyr a lofnodwyd gan 16 Aelod Seneddol Ewropeaidd o nifer o bleidiau, nodir fod ofn gan nifer o awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector' ynglŷn ag anallu'r llywodraeth i gau'r bwlch a chyfrannu arian y ei le:

"Bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn dyfnhau'r anghydraddoldeb dychrynllyd sydd eisoes yn difetha'n cymunedau. Credwn mai aros yn yr UE yw'r unig fargen dda ar gyfer ein cymunedau. Ond os mai gadael yr UE fydd hanes y Deyrnas Gyfunol ddiwedd y mis nesaf, galwn arnoch chi i fwrw ymlaen ar frys gyda chynnig fydd yn sicrhau bod arian yn cael ei roi i lenwi'r bwlch ariannol, tra'n parchu cymwyseddau'r llywodraethau datganoledig yn llawn."

Wrth wneud sylwadau ynglŷn â'r llythyr, dywedodd **Jill Evans**,

"Mae anghydraddoldeb yn y DG yn uwch nac unrhyw aelod wladwriaeth yn yr UE. Os ydym am ddod â'r anghydraddoldeb dychrynllyd hwn i ben, yna gadael yr UE yw'r peth olaf ddylai Cymru ei wneud. Byddai colli ariannu Ewropeaidd hanfodol yn beth andwyol i Gymru.

"Pe bawn yn gadael yr UE, dylai Llywodraeth y DG weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cymunedau tlotaf Cymru yn parhau i dderbyn nawdd, er mwyn lleihau'r gwahaniaethau rhanbarthol syfrdanol a achosir gan lymder."

Recommended

News

© European Union 2019 - Source : EP



Debriefing of the September Plenary Session

12.09.2025

Press release

Foto von Ben Berwers auf Unsplash



Mid-term review risks turning EU Cohesion policy into …

10.09.2025

Press release

[EFA MEPs demand stronger EU action as the Gaza genocid…]

10.09.2025

News



[Galizan MEP condemns government response to devastatin…]

09.09.2025

Responsible MEPs



Jill Evans

Member

Please share

- E-Mail